



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gyfun Penweddig
Ffordd Llanbadarn
Llangawsai
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3QN**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2017

Cyd-destun

Ysgol gyfun gymunedol ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion yw Ysgol Gyfun Penweddig. Lleolir yr ysgol mewn adeilad cymharol newydd (a agorwyd yn Ionawr 2001) ar safle yn Llangawsai, ger Llanbadarn Fawr, Aberystwyth.

Mae ynddi 591 o ddisgyblion 11-18 oed ac mae 122 ohonynt yn fyfyrwyr 16-18 oed. Mae amrywiaeth yng nghefnidir economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol y disgyblion. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys tref Aberystwyth ac ardal wledig eang y tu hwnt i'r dref. Mae 5.4% o ddisgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r canran cenedlaethol o 17.1%. Nid oes un o ddisgyblion yr ysgol yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae'r holl ddisgyblion yn medru siarad Cymraeg yn rhugl. Mae'r rhan fwyaf wedi derbyn eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg tra bod y gweddill wedi derbyn addysg ddwyieithog. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae bron pob disgybl a myfyriwr yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae 69% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref. Un disgybl sydd yng ngofal yr awdurdod lleol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 1% o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 2.5%. Mae 22% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.

Mae aelodaeth yr uwch dîm rheoli wedi aros yn weddol sefydlog ers yr arolygiad diwethaf. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd yn Ionawr 2010. Penodwyd un dirprwy bennaeth i'w swydd yn 2009 a phenodwyd y dirprwy arall ddwy flynedd yn ôl.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Penweddig yn 2016-2017 yw £4,819. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Ceredigion yw £5,455 a'r lleiafswm yw £4,425. Mae Ysgol Gyfun Penweddig yn y trydydd safle o'r pump ysgol uwchradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonal
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonal

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn agos at y deilliannau a fodelwyd mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf
- Mae canran y disgyblion sydd yn ennill 5 gradd A*-A mewn TGAU neu gymhwyster cyfwerth wedi gwella dros amser ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg yn 2016
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu a lefelau uchel o gymhelliant
- Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn eang ac mae ystod werthfawr o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas waith gynhyrchiol gyda'r disgyblion ac mae tua hanner y gwersi yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf
- Mae'r ysgol yn un ofalgar a chynhwysol ag iddi awyrgylch hapus

Fodd bynnag:

- Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd o un cyfnod allweddol i'r llall nac mewn ysgolion tebyg eraill
- Mae perfformiad bechgyn yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi dirywio dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'n gyson yn is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg
- Mae canran y disgyblion sydd yn ennill 3 gradd A*-C neu A*-A mewn Lefel A neu gymhwyster cyfwerth wedi dirywio dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n is na chyfartaledd ysgolion tebyg
- Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi dirywio ac maent yn gyson yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg
- Mewn tua hanner y gwersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd
- Nid yw'r gweithdrefnau olrhain cynnydd yn ddigon cydlynus
- Nid yw'r trefniadau ar gyfer gwella presenoldeb wedi bod yn ddigon effeithiol

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd yn gosod disgwyliadau uchel o holl randdeiliaid yr ysgol
- Mae arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau mewn ychydig o feysydd

- Mae llinellau atebolrwydd yn glir ar y cyfan ac mae'r ysgol wedi cryfhau ei gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant
- Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn adnabod ei phrif gryfderau a'i meysydd i'w gwella
- Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid er mwyn cyfoethogi profiadau disgyblion

Fodd bynnag:

- Mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd gwaith hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ac nid yw'r prosesau hunanarfarnu bob amser yn rhoi darlun digon clir o berfformiad yr ysgol
- Nid yw'r ysgol yn rhoi digon o ystyriaeth i berfformiad yr ysgol yng nghydestun ysgolion tebyg eraill wrth arfarnu data
- Nid yw arweinwyr yn rhoi digon o sylw i gynnydd a safonau disgyblion wrth graffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi
- Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn llawer o argymhellion yr arolygiad diwethaf
- Mae diffyg yn y gyllideb

Argymhellion

- A1 Gwella safonau a chynnydd disgyblion, yn enwedig bechgyn yng nghyfnod allweddol 4
- A2 Gwella presenoldeb
- A3 Gwella ansawdd yr addysgu, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu
- A4 Cryfhau'r trefniadau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion a gosod targedau iddynt
- A5 Gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant
- A6 Gweithio'n effeithiol er mwyn dileu'r diffyg yn y gyllideb

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae perfformiad yr ysgol yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn amrywiol dros y pedair blynedd diwethaf. Dros y cyfnod hwn, mae perfformiad yr ysgol wedi cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg eraill mewn tua hanner y dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi aros yn gymharol wastad. Ac eithrio yn 2014, pan roedd perfformiad yr ysgol yn sylweddol is na deilliannau wedi'u modelu, mae'r perfformiad wedi bod yn agos at y deilliannau wedi'u modelu am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad yr ysgol yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gostwng ychydig dros y pedair blynedd diwethaf ac wedi bod ychydig yn is na deilliannau wedi'u modelu ers tair blynedd. Mae perfformiad yn y dangosydd 5 A*-A mewn TGAU neu gyfwerth wedi gwella dros amser ac yn sylweddol uwch na pherfformiad ysgolion tebyg yn 2016. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd o un cyfnod allweddol i'r llall nac ydynt mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad merched mewn llawer o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella dros amser ac mae'n gyson yn uwch na pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn yn nghyfnod allweddol 4, yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion hyn, wedi dirywio dros amser ac mae'n gyson yn is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg. Mae nifer bach o ddisgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim ac mae eu perfformiad yn amrywiol iawn dros amser. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol o un cyfnod i'r nesaf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un disgybl yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae bron pob un disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac mae llawer ohonynt yn ennill gradd A* - C.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi aros yn sefydlog dros amser. Serch hyn, mae perfformiad yr ysgol yn is na deilliannau wedi'u modelu ers dwy flynedd. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg.

Yn y chweched dosbarth, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy lefel 3 yn gyson uchel ac yn debyg i gyfartaledd ysgolion tebyg eraill. Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sy'n llwyddo i ennill 3 gradd A*-C ac A*-A mewn lefel A neu gymhwyster cyfatebol wedi dirywio yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n is na chyfartaledd ysgolion tebyg.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r disgyblion yn arddangos cymhelliant cryf ac agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn eiddgar i lwyddo. Pan gânt y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n gynhyrchiol mewn parau a grwpiau ac yn gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus.

Mewn tua hanner y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu dealltwriaeth a'u medrau pynciol. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus ac yn cymhwyso'u medrau i sefyllfaoedd newydd yn fedrus. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith sydd o safon briodol i'w hoedran a'u gallu.

Mewn tua hanner y gwersi, nid yw mwyafrif y disgyblion yn dwyn i gof wybodaeth flaenorol yn llwyddiannus nac yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol. Yn y gwersi hyn, nid yw mwyafrif y disgyblion yn cyflawni'n unol â'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar ei gilydd ac ar eraill ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn brydlon. Mae llawer ohonynt yn cyfleu eu safbwyntiau yn glir wrth siarad ac yn egluro a chyfiawnhau eu barnau'n synhwyrol. Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn trafod yn aeddfed ac yn cynnig ymatebion estynedig deallus.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir ac yn defnyddio termau pynciol yn briodol. Maent yn trefnu eu gwaith yn rhesymegol ac yn paragraffu'n gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn atalnodi'n gywir ac yn ysgrifennu'n estynedig yn bwrpasol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyfleu eu syniadau yn huawdl gan ddefnyddio iaith goeth. Fodd bynnag, mae gwallau sillafu sylfaenol yng ngwaith llawer o'r disgyblion.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen cadarn. Maent yn cywain gwybodaeth yn llwyddiannus ac yn defnyddio ystod o dechnegau darllen yn addas. Pan gânt y cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn dadansoddi testunau yn effeithiol ac yn dod i gasgliadau synhwyrol. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn uchel yn hyderus ac yn mynegi eu hunain yn glir.

Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio medrau sylfaenol rhif yn gywir ac yn ymdrin â rhifau cyfan, ffracsiynau, degolion a chanrannau yn hyderus. Maent yn defnyddio ystod eang o fedrau mesur yn addas ac yn defnyddio'r unedau cywir wrth fesur onglau, hyd, arwynebedd a chyfaint. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn llwyddiannus er mwyn datrys problemau pob dydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau elfennol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol i brosesu geiriau, creu cyflwyniadau a thrin data mewn ychydig o bynciau ar draws y cwricwlwm.

Lles: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn meddwl bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â bwlio.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd byw a bwyta'n iach ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol chwaraeon a ffitrwydd yn rheolaidd.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion, mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, yn dda iawn. Maent yn gwrtais iawn a dangosant barch amlwg tuag at eraill. Maent yn barod i weithio ac mae ganddynt gymhellant cryf i ddysgu. Nid oes unrhyw waharddiadau parhaol wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y medrau angenrheidiol i symud ymlaen at y cam nesaf yn eu dysgu neu i fyd gwaith.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf ac maent yn gyson is nag ydynt mewn ysgolion tebyg eraill. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ac yn is na'r deilliannau wedi'u modelu. Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod ac mae'n uwch na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg eraill ers dwy flynedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol ac elusennol gwerthfawr. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y mae'r disgyblion hŷn yn trefnu gweithgareddau gwerthfawr ar gyfer y disgyblion iau er mwyn hybu balchder yn eu Cymreictod.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion leisio'u barn yn datblygu'n briodol. Mae'r cyngor ysgol yn dechrau dylanwadu ar benderfyniadau yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n werthfawr at gyfarfodydd y corff llywodraethol. Er enghraifft, maent wedi llwyddo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer bwyta'n iach. Fodd bynnag, dim ond tua hanner y disgyblion sydd yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu llais ac yn gwneud y newidiadau a awgrymir ganddynt.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Da

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys ac yn ateb gofynion statudol. Mae'r ysgol yn gweithio'n greadigol gyda darparwyr lleol eraill er mwyn ehangu'r dewisiadau sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae cyrsiau galwedigaethol megis amaethyddiaeth a gwaith gofaint yn diwallu anghenion disgyblion a chyflogwyr lleol yn dda.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi profiadau addysgol y disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau addysgol ynghyd ag ystod eang o weithgareddau chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol. Er enghraifft, mae teithiau i Wlad Belg, yr UDA a Gwlad yr Iâ, corau ysgol a chystadlaethau Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i hysgolion cynradd partner er mwyn darparu amrywiaeth o weithgareddau pontio sy'n sicrhau trosglwyddo diffwdan o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Mae'r ysgol wedi mapio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn briodol. Mewn llawer o bynciau, rhoir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio a gwella eu medrau llythrennedd. Mewn ychydig o bynciau, mae'r ddarpariaeth yn y gwersi yn helpu disgyblion i ymarfer eu medrau rhif yn addas. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn dechrau datblygu. Mae rhaglenni ymyrraeth megis 'CLICS' yn darparu cefnogaeth briodol i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i wella eu medrau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gadarn o waith yr ysgol. Mae gweithgareddau clwb 'GYTS', a arweinir gan y chweched dosbarth, yn darparu cyfleoedd ieithyddol a diwylliannol gwerthfawr i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau buddiol diddorol i alluogi disgyblion i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang a chynaliadwyedd.

Addysgu: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas waith gefnogol a chynhaliol gyda'r disgyblion. Mae llawer ohonynt yn fodolau iaith da ac mae ganddynt wybodaeth bynol gadarn. Maent yn creu adnoddau deniadol a phwrpasol ac yn cynnig cyfarwyddiadau clir.

Mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus ac yn darparu gweithgareddau sydd yn adeiladu'n fuddiol ar ei gilydd er mwyn sicrhau cynnydd disgyblion. Mae amcanion clir i'r gwersi a thasgau ysgogol sydd yn cynnal diddordeb y disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mewn ychydig o wersi effeithiol iawn, mae athrawon yn cynllunio'n ddychmygus ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o gyflawniad pob disgybl.

Mewn tua hanner y gwersi, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd yn cynnig digon o her i ddisgyblion. Mae athrawon yn dueddol o or-gyfarwyddo ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau'n annibynnol a dysgu o'u camgymeriadau. Yn y gwersi hyn, nid oes amcan clir i bob gweithgaredd ac nid yw athrawon, wrth gynllunio, yn rhoi digon o bwyslais ar sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn cyflawni'u potensial. Yn y gwersi hyn, mae tempo'r dysgu'n rhy araf ac nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn holi cwestiynau pwrpasol sydd yn procio dealltwriaeth disgyblion yn addas ac maent yn rhoi adborth buddiol wrth gylchu'r dosbarth. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, nid yw athrawon yn gwirio dealltwriaeth na chynnydd disgyblion yn ddigon trylwyr cyn symud ymlaen i'r dasg nesaf.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn rhoi arweiniad defnyddiol i ddisgyblion o ran yr hyn sy'n dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Serch hyn, mae gormod o amrywiaeth o fewn ac ar draws adrannau yn ansawdd y sylwadau ar waith disgyblion. Mae lleiafrif o adrannau yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wella agweddau ar eu gwaith yn sgil sylwadau eu hathrawon. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o bynciau, mae'r gweithgareddau hyn yn rhy arwynebol ac nid ydynt yn arwain at gynnydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion wedi cryfhau yn ddiweddar. Serch hyn, nid yw'r system bresennol ar gyfer olrhain cynnydd holl ddisgyblion yr ysgol wedi ei datblygu'n llawn ac nid oes trefn glir ar gyfer monitro cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau.

Yn gyffredinol, mae rhieni'n derbyn adroddiadau priodol ar gyrhaeddiad eu plant. Mae llawer o adroddiadau diwedd blwyddyn yn nodi'n glir gryfderau disgyblion ac mae'r mwyafrif yn cynnwys sylwadau defnyddiol ar agweddau sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau i rieni yn rhoi darlun digon clir o gynnydd eu plant dros amser.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer hybu datblygiad moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion drwy sesiynau cofrestru, gwasanaethau a gwersi penodol. Fodd bynnag, nid yw pob tiwtor dosbarth yn sicrhau bod addoli ar y cyd yn digwydd yn rheolaidd yn ystod y cyfnodau cofrestru.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd gwerthfawr er mwyn hyrwyddo lles disgyblion. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnig profiadau amrywiol a buddiol i ddisgyblion ddod yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta a byw'n iach, ffitrwydd a diogelwch personol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o gyfranwyr allanol er mwyn cyfoethogi profiadau disgyblion.

Darpara'r ysgol gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 a'r chweched dosbarth dderbyn profiad gwaith gydag ystod o gyflogwyr lleol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cyfarwyddyd defnyddiol wrth iddynt wneud dewisiadau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a chyrsgiau ôl-16.

Mae'r ysgol yn darparu gofal gwerthfawr i ddisgyblion bregus a rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r disgyblion hyn yn derbyn cynhaliaeth ymarferol a chefnogol gan staff ymroddgar canolfan yr 'Hafan'.

Gweithredir polisi ymddygiad a threfniadau gwrth-fwlio clir a chadarn gan yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau i wella presenoldeb. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar godi cyfraddau presenoldeb ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol. Mae disgyblion a'u rhieni yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at gynlluniau addysg unigol. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu gwybodaeth fuddiol am anghenion disgyblion unigol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn rhoi digon o ystyriaeth i'r cynlluniau hyn wrth gynllunio gwersi.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae Ysgol Gyfun Penweddig yn gymuned ofalgar, hapus ag iddi ethos cynhaliol Cymreig. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis parch a boneddigrwydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn barchus o'i gilydd a'u hathrawon ac yn ystyriol o eraill. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod pob disgybl ac aelod o staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch. Caiff pob disgybl fynediad teg i'r cwricwlwm ac i ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag eu hanghenion.

Mae'r adeilad yn fodern a glân ac yn darparu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol. Ceir arddangosfeydd atyniadol a defnyddiol yn yr ystafelloedd dosbarth. Mae'r cyfleusterau o ansawdd uchel ac mae ardaloedd hwylus i ddisgyblion allu cymdeithasu o dan do. Mae'r adeiladau yn briodol ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau a gynigir. Mae'r adnoddau ar gyfer chwaraeon yn addas a gwneir defnydd gwerthfawr o'r ganolfan hamdden gyfagos.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddynt weledigaeth bwrpasol i greu ysgol sy'n rhagori ymhob maes ac maent yn gosod disgwyliadau uchel ar bawb sy'n rhan o'r ysgol. Caiff y weledigaeth ei rhannu yn briodol â holl staff yr ysgol. Serch hynny, nid yw'r ysgol yn rhannu'r weledigaeth yn ddigon clir â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Er bod yr uwch dîm rheoli yn cydweithio'n agos i weithredu'r weledigaeth, nid ydynt wedi rhoi arweiniad digon cadarn i staff yr ysgol ar sut i gynnal safonau uchel, gwella ansawdd yr addysgu a chodi cyfraddau presenoldeb y disgyblion.

Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli yn glir ac yn gytbwys ac yn ymateb yn strategol i anghenion yr ysgol ac i flaenoriaethau cenedlaethol. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n briodol. Mae arweinwyr ar bob lefel a llywodraethwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o ddata i arfarnu agweddau ar berfformiad yr ysgol. Serch hynny, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o berfformiad yr ysgol yng nghyd-destun ysgolion tebyg eraill.

Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro'r drefn arweinyddiaeth ganol yn ddiweddar, gan sefydlu system cyfadrannau ac arweinwyr cynnydd. O ganlyniad, mae llinellau atebolrwydd a chyfrifoldebau arweinyddion canol yn gliriach. Mae cydweithio buddiol rhwng yr arweinyddion pwnc a'r arweinwyr cynnydd. Serch hynny, nid yw'r cydweithio wedi bod yn ddigon effeithiol i godi cyfraddau presenoldeb a sicrhau cyrhaeddiad cyson uchel i'r disgyblion. Mae'r arweinwyr canol yn dechrau dadansoddi a defnyddio data perfformiad i adnabod disgyblion sy'n tanberfformio ac i baratoi ymyrraeth addas iddynt. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd arweinwyr canol yn amrywio'n ormodol.

Mae strwythur addas o gyfarfodydd rheoli sydd yn canolbwyntio'n briodol ar brif flaenoriaethau'r ysgol. Mae agendâu addas a chofnodion pwrpasol i'r cyfarfodydd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd yn arwain at ddigon o weithredoedd mesuradwy nac yn cynnwys dyddiadau cwblhau addas.

Mae gan y corff llywodraethol ystod eang o brofiadau a medrau sydd yn berthnasol i'w rolau. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn adnabod prif gryfderau a meysydd i'w gwella'r ysgol yn briodol. Maent yn dechrau deall sut i ddadansoddi data er mwyn herio perfformiad adrannau unigol. Er hyn, nid yw lefel yr her a gynigir ganddynt wedi cael digon o effaith ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r ysgol wedi mireinio ei phrosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddiweddar ac, yn gyffredinol, maent yn datblygu'n briodol. O ganlyniad, mae gan arweinwyr well dealltwriaeth o safonau, ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r gwelliant yn y trefniadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau o berfformiad yr ysgol, er enghraifft yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 A*-A mewn TGAU neu gymhwyster cyfwerth. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau wedi cael digon o effaith ar feysydd pwysig eraill, megis sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y gwersi a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn ddogfen gryno a defnyddiol sydd yn rhoi darlun cyffredinol deg o'r prif gryfderau a'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella. Mae'r ddogfen yn arfarnol ar y cyfan ac yn gwneud defnydd priodol o ganfyddiadau o arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Serch hyn, mewn manau, nid yw'r ddogfen yn rhoi darlun cwbl glir o berfformiad yr ysgol, yn enwedig mewn agweddau llai llwyddiannus o'i gwaith. Nid yw arweinwyr ar bob lefel yn rhoi digon o ystyriaeth i berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg eraill. O ganlyniad, mae'r ysgol yn rhy hael wrth arfarnu ei llwyddiant mewn ychydig o achosion

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau sicrhau ansawdd priodol. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau adrannol effeithiol, dadansoddiadau o ddata, arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau monitro gwersi a llyfrau yn rhoi digon o sylw i safonau disgyblion, yn enwedig y cynnydd a wnânt. O ganlyniad, nid oes gan staff ddealltwriaeth ddigon cadarn o effaith yr addysgu ar safonau ac, yn gyffredinol, nid yw'r darlun o ansawdd yr addysgu yn ddigon gwrthrychol a chlir.

Mae'r ysgol yn dechrau gwneud defnydd priodol o farn disgyblion mewn ychydig o feysydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw arweinwyr yn rhoi digon o ystyriaeth i farn disgyblion am wersi ac ansawdd y ddarpariaeth. Er bod yr ysgol yn holi barn rhieni yn achlysurol, nid yw arweinwyr yn ymateb yn ddigon strategol i'r canfyddiadau o'r gweithgareddau hyn.

Mae gwaith hunanarfarnu'r rheolwyr canol yn amrywiol o ran ansawdd a defnyddioldeb. Defnyddiant ddata perfformiad a thystiolaeth o fonitro gwersi a llyfrau yn briodol er mwyn adnabod cryfderau a materion gweithredu penodol. Mae arweinwyr yn cynhyrchu adroddiadau priodol sydd yn crynhoi prif ganfyddiadau'r

gweithgareddau monitro ansawdd. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi sylw digon trylwyr i gynnydd disgyblion mewn gwersi nac i'w cyflawniad dros amser wrth arfarnu effeithiolrwydd eu hadrannau.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n blaenoriaethu'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w datblygu a adnabyddir trwy'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun ysgol a'r cynlluniau gwella adrannol yn cynnwys targedau clir a mesuradwy ar y cyfan. Mae llawer o'r camau gweithredu'n synhwyrol ac mae cyfrifoldebau wedi eu nodi'n bwrpasol. Mae manylion bras am anghenion adnoddau a chostau a nodiadau defnyddiol am anghenion datblygiad proffesiynol staff. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r cerrig milltir ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y gweithredoedd yn addas.

Serch y gwelliannau mewn ychydig o feysydd pwysig, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn erbyn llawer o argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau cryf sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion.

Mae amrywiaeth o bartneriaethau gwerthfawr gyda'r gymuned leol yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu'n gymdeithasol ac i wneud cyfraniad pwysig i'r ardal. Er enghraifft, mae gweithgareddau codi arian difyr megis y sioe 'Awr Fawr' a'r 'Wythnos Ddyngarol' dan arweiniad y disgyblion yn fodd i gydweithio'n llwyddiannus gyda sefydliadau allanol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda choleg ac ysgol arall er mwyn ehangu'r dewisiadau pynciol i ddisgyblion trwy ddarparu cyrsiau sy'n addas iddynt. Mae'r bartneriaeth hon wedi sicrhau nad oes yr un disgybl yn yr ysgol wedi gadael yn ddigymhwyster ers nifer o flynyddoedd. Mae trefniadau cadarn i sicrhau ansawdd y cyrsiau hyn ac mae'r deilliannau'n gryf.

